Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Cyflenwi marchnad ynni symlach a mwy cystadleuol

**Taflen ffeithiau 111** 01.12.11 www.ofgem.gov.uk

**Mae Ofgem yn cyflwyno pecyn o gynigion i gyflenwi marchnad ynni symlach a mwy cystadleuol. Ein nod yw gwella'r ffordd y mae cyflenwyr yn cyfathrebu â defnyddwyr a chyflwyno tariffau symlach fel ei bod yn haws i bobl ddod o hyd i'r fargen orau.**

## Mater

Yn ôl gwaith ymchwil Ofgem, mae llawer o ddefnyddwyr o'r farn bod y farchnad ynni yn gymhleth ac yn anodd ei deall. Dim ond nifer fechan ohonynt sy'n mynd ati i chwilio am y fargen orau. Felly, mae'n bosibl bod llawer o bobl yn talu mwy am eu nwy a'u trydan nag sydd ei angen.

Drwy symleiddio tariffau a'i gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gyfathrebu mewn ffordd gliriach, gobeithiwn gynyddu nifer y defnyddwyr sy'n archwilio'r farchnad ynni a'u helpu i ddod o hyd i gynllun gwell.

Mae gwaith ymchwil Ofgem hefyd yn dangos nad yw defnyddwyr yn ymddiried mewn cyflenwyr ynni na'r wybodaeth a gânt oddi wrthynt. Bydd ein cynigion am safonau ymddygiad newydd a ategir gan gosbau ariannol yn helpu i ailennyn hyder mewn cyflenwyr.

## Rôl Ofgem

Rôl Ofgem yw diogelu buddiannau pob cwsmer ynni nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cyflawni'r swyddogaeth hon, lle y bo'n briodol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth yn y sector ynni. Ym mis Mawrth, nodwyd gennym fod cystadleuaeth yn cael ei llesteirio drwy gyfuniad o dariffau cymhleth, ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr a diffyg tryloywder.

Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Ofgem ei gynigion manwl ar ddiwygio'r farchnad ynni domestig. Nod y diwygiadau amrywiol yw helpu i adfer hyder drwy dariffau symlach, gwell cyfathrebu a safonau ymddygiad newydd y gellir eu gorfodi. Mae ein cynigion hefyd wedi'u cynllunio i hyrwyddo cystadleuaeth rhwng cyflenwyr a chefnogi arloesedd a dewis.

## Ein cynigion

Mae ein diwygiadau manwerthu arfaethedig yn cwmpasu tri maes:


- symleiddio tariffau.
- gwella'r wybodaeth a roddir i gwsmeriaid gan gynnwys biliau, cyfriflenni blynyddol a hysbysiadau am godi prisiau..
- gwella safonau ymddygiad.

Mae Ofgem hefyd yn cynnig lleihau dylanwad y chwe chyflenwr ynni mwyaf yn y farchnad drydan er mwyn annog cyflenwyr newydd i ymuno â'r farchnad.

Nid rheoleiddio prisiau ac elw manwerthu yw ein rôl. Ond rydym am sicrhau bod elw cwmnïau ynghyd â'u costau ynni cyfanwerthol yn fwy tryloyw fel y gall defnyddwyr a darpar gyflenwyr ddeall sut mae prisiau manwerthu yn gysylltiedig â chostau cyfanwerthol. Rydym wedi penodi cyfrifwyr annibynnol i edrych ar y wybodaeth ariannol y mae'n rhaid i gwmnïau ei rhoi, gan gynnwys eu helw, a sut maent yn adrodd ar gostau ynni cyfanwerthol. Bwriadwn adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau yn y Flwyddyn Newydd.

**Gwybodaeth sydd ei hangen arnoch ar hyn o bryd i weithio allan y tariff safonol neu'r tariff rhataf**

**Y FARCHNAD AR HYN O BRYD** | **O DAN Y CYNIGION NEWYDD**




*noder: dim ond cynigion safonol y mae'r diagram hwn yn eu cynrychioli, nid yw'n cynnwys opsiwn tymor penodol nac opsiynau tariff eraill a all fod ar gael yn y farchnad ar hyn o bryd neu o dan y cynigion newydd.

## Natur gymhleth tariffau

Er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i gynllun gwell, anelwn at fynd i'r afael â natur gymhleth y farchnad drwy:

- leihau nifer y tariffau safonol.
- cyflwyno pris uned sengl fel bod defnyddwyr yn gallu dewis y tariff safonol rhataf yn haws.
- sicrhau bod cyflenwyr yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr sy'n llawer mwy eglur a hawdd ei deall.

Yn seiliedig ar dystiolaeth o'n gwaith ymchwil ymhlith defnyddwyr, mae Ofgem a'r rhan fwyaf o grwpiau defnyddwyr o'r farn bod angen i dariffau fod yn symlach er mwyn helpu defnyddwyr i'w cymharu a newid cyflenwr.

## Cynigion o ran tariffau

**Tariffau safonol neu dariffau di-lol** - unrhyw dariff nad yw'n dod i ben ar ddyddiad penodol. Fel arfer, caiff y cyflenwr newid y pris - er ein bod bellach wedi sicrhau bod cyflenwyr yn ysgrifennu at ddefnyddwyr o leiaf 30 diwrnod cyn i'w prisiau godi. Rydym yn cynnig y canlynol:

- dim ond un tariff safonol y gall pob cyflenwr ei gael fesul dull talu fesul tanwydd. Y tri dull talu yw debyd uniongyrchol, mesurydd rhagdalu a chredyd safonol, fel arian parod, sieciau ac ati.
- bydd defnyddwyr yn cael tâl sefydlog penodol a bennir gan Ofgem ynghyd â phris uned syml - gan eu galluogi i ddewis y tariff safonol rhataf yn haws.

Bydd y newidiadau hyn yn cynnig mwy o wybodaeth dryloyw a chymaradwy am brisiau ynni. Byddant hefyd yn mynd i'r afael â'r dryswch ynghylch nifer y tariffau ac yn galluogi pobl i weld yn gyflym a allant arbed arian drwy newid cyflenwr neu ddewis cynllun newydd. Mae hyn yn newid mawr gan y bydd mwy o dryloywder yn helpu pob cwsmer.

**Tariffau mwy arloesol -** Rydym yn cynnig y dylai pob tariff arall fod yn dariff tymor penodol â dyddiad dod i ben penodol a thelerau ac amodau penodol. Rydym yn cynnig y canlynol:

- ni fydd cyfyngiadau o ran nifer y contractau tymor penodol, y math o gontractau tymor penodol, eu strwythur na'u hyd gan gynnwys dirwyon am adael.
- caiff telerau ac amodau, gan gynnwys y pris, eu pennu ar ddechrau'r contract ac ni allant newid am hyd y contract tymor penodol. (Er na fyddai'r pris yn sefydlog ar gyfer rhai tariffau tracio cyfyngedig).
- caiff cyflenwyr eu gwahardd rhag adnewyddu contractau'n awtomatig ar ddiwedd contract. Felly, bydd cwsmeriaid nad ydynt yn ymrwymo i gynllun newydd neu estynedig pan fydd eu contract tymor penodol yn dod i ben yn cael eu trosglwyddo i'r tariff safonol. Bydd ganddynt y rhyddid i newid cyflenwr o hyd.
- rheolau llym o ran gwybodaeth eglur a sicrhau bod y cwsmer yn deall y telerau.

Byddai tariffau tymor penodol hefyd yn galluogi cyflenwyr i barhau i arloesi a rhoi dewis gwirioneddol i'w cwsmeriaid.

## Cymharu a dewis

Rydym yn cynnig y canlynol:

- arddangos pob pris ynni mewn punnoedd a cheiniogau, er enghraifft '£/mis' yn ogystal â 'c/kWh'. Mae ein gwaith ymchwil ymhlith defnyddwyr yn dweud wrthym y gallant ymateb yn well i wybodaeth a gyflwynir yn y ffordd hon. Bydd yn gyfwerth â chymhariaeth 'APR' ar gyfer nwy a thrydan.
- bydd yn rhaid i gyflenwyr gyhoeddi pris pob un o'u tariffau yn yr un ffordd fel y gall defnyddwyr gymharu tariffau safonol a thariffau tymor penodol.

Bydd hyn yn sicrhau gwell tryloywder fel y gall cwsmeriaid gymharu tariffau safonol â thariffau tymor penodol mwy arloesol.

## Gwella safonau ymddygiad

Er mwyn gwella ymddygiad cyflenwyr a chynyddu hyder defnyddwyr, rydym yn cynnig Safonau Ymddygiad cryfach ac ehangach. Bydd y rhain yn gymwys i unrhyw ryngweithio rhwng cyflenwyr a defnyddwyr a byddant yn gyfreithiol gyfrwymol drwy eu hymgorffori mewn amod trwydded cyffredinol. Bydd y safonau ymddygiad y gellir eu gorfodi yn sicrhau'r canlynol:

- bod cyflenwyr yn ymddwyn mewn ffordd deg, gonest, tryloyw a phroffesiynol wrth ddelio â defnyddwyr.
- bod yr holl wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr yn gyflawn, yn gywir ac nad yw'n eu camarwain a'i bod yn cael ei chyfleu mewn iaith glir y gellir ei deall.
- nad yw cyflenwyr yn marchnata cynhyrchion neu wasanaethau sy'n amhriodol i ddefnyddwyr.
- bod cyflenwyr yn gweithredu mewn ffordd brydlon a chwrtais er mwyn gwneud iawn â defnyddwyr os oes rhywbeth wedi mynd o'i le a sicrhau bod trefniadau gwasanaethau defnyddwyr yn addas at y diben.

## Gwella biliau, cyfriflenni blynyddol a hysbysiadau am godi prisiau

Rydym wedi llunio pecyn o gynigion i wella ansawdd y wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr er mwyn eu helpu i ddeall y farchnad ynni yn well. Rydym hefyd yn cynnig atgyfnerthu amodau trwyddedau er mwyn sicrhau bod y modd y'u dehonglir yn gyson a bod ein disgwyliadau o ran cyflenwyr yn cael eu bodloni. Ymhlith y cynigion mae'r canlynol:

- ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr wahanu biliau a chyfriflenni blynyddol a'u hanfon at ddefnyddwyr ar wahân.
- bydd yn rhaid i gyfriflenni blynyddol ddilyn fformat cyffredin gyda Label Gwybodaeth am Dariffau newydd yn nodi tariff y defnyddiwr mewn ffordd amlwg.
- byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i iaith safonol gael ei defnyddio ar gyfer gwybodaeth allweddol yn y tair dogfen.

## Defnyddwyr agored i niwed

Rydym yn poeni'n arw am ddefnyddwyr agored i niwed na allant archwilio'r farchnad ynni oherwydd eu hamgylchiadau penodol. Gallant gynnwys y rheini â sgiliau llythrennedd neu rifedd cyfyngedig, pobl oedrannus a bregus a'r rhai sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd. Mae'r defnyddwyr hynny sy'n anabl, ar incwm is neu'n oedrannus yn llai tebygol o fod ar-lein.

Dylai ein cynnig i gyfyngu ar dariffau safonol a chyflwyno tâl sefydlog penodol helpu'r defnyddwyr hyn. Rydym hefyd yn bwriadu gweithio gyda'r llywodraeth i weld a oes angen i grwpiau agored i niwed gael eu hamddiffyn yn llawer gwell.

Byddwn yn cymryd camau i fonitro effaith ein cynigion ar bobl agored i niwed pan y'u cyflwynir. Os byddwn yn gweld eu bod dan anfantais o hyd, byddwn yn ystyried pa gamau pellach y mae angen eu cymryd er mwyn amddiffyn y cwsmeriaid hyn.

## Camau pellach

Mae Ofgem yn cynnig ei fod yn mabwysiadu Cod Hyder Llais Defnyddwyr er mwyn ennyn ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwefannau newid cyflenwyr a gwella'r berthynas rhyngddynt a chwsmeriaid. Rydym hefyd yn ystyried gwneud mwy o waith o ran monitro cyflenwyr drwy gasglu a chyhoeddi data ar eu perfformiad a chwynion.

## Camau nesaf

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Ofgem gynigion manwl ar gyfer ymgynghoriad ar ddiwygio'r farchnad ynni domestig. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw 20 Chwefror 2012. Ar ôl adolygu ymatebion yr ymgynghoriad, rydym yn disgwyl cyhoeddi ein cynigion terfynol ac ymgynghori ar newidiadau i amodau trwyddedau cyflenwyr yn ystod yr haf gyda'r nod o wneud penderfyniad terfynol yn yr hydref. Mae hyn yn golygu y gellid gweithredu rhai o'n cynigion erbyn gaeaf 2012.

## Am ragor o wybodaeth:

Rhoddir manylion llawn ein cynigion yn yr Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu - Cynigion Domestig ar wefan Ofgem.

Ar gyfer ymholiadau cyhoeddus, cysylltwch â'r:

**Tîm Materion Defnyddwyr** 020 7901 7295 e-bost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â'r cyfryngau, cysylltwch â:

**Lydia Fitzpatrick, Uwch Swyddog Cyfathrebu** 020 7901 7419 e-bost: lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk
**Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg** 020 7901 7225 e-bost: chris.lock@ofgem.gov.uk